**TRYDYDD CYFARFOD CADEIRYDDION GRWPIAU PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU – TŶ LADYWELL, Y DRENEWYDD 27 EBRILL 2010 – CAMAU GWEITHREDU**

| Rhif | Pwy/Cam gweithredu | Canlyniad | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Dylai Jan Sherry lunio astudiaethau achos sy'n arddangos llwyddiannau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (sy'n llai na 200 gair) ar gyfer John Taylor.** | **Mae astudiaethau achos o'r hyn sy'n gweithio'n dda yn sail i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol** | **Ysgrifennodd JS astudiaeth ynghylch Llyn, ac fe'i hanfonwyd at Fiona Evans. Crynhodd FE astudiaethau eraill gan staff y Cyngor Cefn Gwlad.** |
| 2 | Dylai Julia Korn ysgrifennu astudiaeth achos ynghylch yr arfer da sydd ar waith drwy hyrwyddwyr bioamrywiaeth awdurdodau lleol. | Mae astudiaethau achos o'r hyn sy'n gweithio'n dda yn sail i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol | Wedi'i gyflawni |
| **3** | **Dylai Diana Reynolds ofyn i'r academyddion a fydd yn aelodau o'r Grwpiau Ecosystem a'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau greu Grŵp Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, a bydd Grŵp Llywio Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru hefyd yn perthyn i'r grŵp. Yna, gofynnir i un cynrychiolydd o'r grŵp fod yn aelod o Grŵp Tystiolaeth Llywodraeth y Cynulliad/yr Asiantaeth i sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu bwydo i mewn ar lefel y Llywodraeth.** | **Cytundeb ynghylch y gofynion o ran tystiolaeth a rhannu gwybodaeth o fewn Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a rhwng Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a'r llywodraeth** | **Wedi'i gyflawni** |
| 4 | Dylai John Taylor roi gwybod i Julia Korn pan fydd grŵp cyfeirio Fframwaith Amgylchedd Naturiol y Cyngor Cefn Gwlad wedi'i sefydlu. | Cynrychiolaeth bioamrywiaeth yn sail i waith datblygu Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol | Wedi'i gyflawni |
| **5** | **Dylai Diana Reynolds ddosbarthu drafft nesaf datganiad cychwyn Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.** | **Cadeiryddion Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cael gwybod am gynnydd o ran Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol** | **Wedi'i gyflawni** |
| 6 | Dylai Peter Frost ddosbarthu'r fethodoleg sy'n cael ei datblygu i asesu lleoliad ac ansawdd safleoedd tir llwyd yng Nghymru. | Mae penderfyniadau ynghylch targedau a chamau gweithredu blaenoriaethol ar gyfer cynefin tir llwyd a brithwaith agored yn seiliedig ar wybodaeth gadarn | Wedi'i gyflawni |
| **7** | **Mae angen i'r Cydbwyllgor Gwarchod** | **Ceir diffiniad cyffredin ar draws y DU ar** | **Wedi'i gyflawni** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Natur/y Cyngor Cefn Gwlad weithio gyda'i gilydd ar y rhan honno o'r diffiniad o gynefin Brithwaith Agored sy'n berthnasol i Gymru.** | **gyfer cynefin newydd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth** | |
| 8 | Dylai Julia Korn (neu TL erbyn hyn) ystyried y gwahanol bosibiliadau o ran darparu gwasanaeth ysgrifenyddol i grwpiau ar lefel Cymru, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio myfyrwyr ôl-ddoethurol a/neu wirfoddolwyr, a chysylltu â Swyddfa Caerdydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae angen gwasanaeth ysgrifenyddol ar gyfer y Grŵp Tir Fferm Amgaeëdig, y Grŵp Morol, y Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau, y Grŵp Coetiroedd a Grŵp yr Ucheldir. | Cymorth cyson a pharhaus i bob grŵp ar lefel Cymru | Daethpwyd o hyd i wasanaeth ysgrifenyddol ar gyfer y Grŵp Tir Fferm Amgaeëdig, y Grŵp Morol, y Grŵp Coetiroedd a Grŵp yr Ucheldir<br>Mae angen gwasanaeth ysgrifenyddol o hyd ar y Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau |
| **9** | **Dylai Diana Reynolds siarad ag adran bysgodfeydd Llywodraeth y Cynulliad am fanteision rhai prosiectau rhywogaethau, e.e. y wystrysen frodorol o ran cynhyrchu pysgodfeydd cynaliadwy. Yna, gall Diana godi'r pwynt hwn a'i drafod yn ystod cyfarfod nesaf y Grŵp Ecosystem Forol.** | **Cyflawnwyd camau gweithredu'n ymwneud â rhywogaethau morol er mwyn hybu pysgodfeydd cynaliadwy yn y dyfodol (gwasanaeth ecosystem)** | **Wedi'i gyflawni** |
| 10 | Dylai Diana Reynolds gynnal gweithdy ar Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn ystod cyfarfod nesaf y Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau. | Arbenigedd a ymgorfforwyd yn Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn sail i anghenion o ran rhywogaethau | Wedi'i gyflawni |
| **11** | **Dylai'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau edrych ar y bylchau yn y ddarpariaeth o ran Partneriaid Arweiniol, a bydd angen i Stephen Bladwell adrodd yn ôl ynghylch y bylchau y mae angen eu llenwi o hyd.** | **Y ddarpariaeth o ran Partneriaid Arweiniol ar gyfer Rhywogaethau yn gyflawn yng Nghymru** | **Wrthi'n cael ei gyflawni** |
| 12 | Dylai Diana Reynolds anfon y wybodaeth ddiweddaraf at Julia Korn ynghylch y cynnydd a wnaed yng nghyswllt materion polisi. | Camau gweithredu'r Grŵp Polisi, gan grwpiau ar lefel Cymru, wedi'u rhoi ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth, a gwybodaeth am gynnydd wedi'i rhannu | Wedi'i gyflawni |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **13** | **Dylai Helen Wilkinson anfon fersiwn ddrafft y Siarter Rhannu Data gyda Diana Reynolds a Chris Lea.** | **Cytundeb ynghylch egwyddorion y Siarter Rhannu Data wedi'i sicrhau ar raddfa eang yn Llywodraeth Cymru** | **Wedi'i gyflawni** |
| 14 | Dylai Diana Reynolds a Chris Lea ddechrau siarad â chydweithwyr yn Llywodraeth Cynulliad Cymru am y Siarter Rhannu Data. | Fel uchod | Wedi'i gyflawni |
| **15** | **Dylai Diana Reynolds ddosbarthu gwybodaeth am sefydliadau y mae wedi gweithio gyda hwy i nodi setiau sgiliau penodol ar gyfer y grwpiau sydd ar lefel Cymru.** | **Nodwyd y setiau sgiliau mewn sefydliadau sy'n briodol i wahanol grwpiau bioamrywiaeth yng Nghymru** | **Wedi'i gyflawni** |
| 16 | Dylai Diana Reynolds anfon at Julia Korn enwau'r bobl sydd wedi cytuno i fod yn aelodau o grwpiau ar lefel Cymru, ar ôl cyflawni'r cam gweithredu uchod. | Mae'r cyfrifoldeb dros gynorthwyo grwpiau bioamrywiaeth Cymru wedi'i wasgaru'n ehangach mewn sefydliadau | Wedi'i gyflawni |
| **17** | **Dylai pawb anfon syniadau at Diana Reynolds ynghylch sefydliadau y dylai fod yn gweithio gyda hwy i adnabod sgiliau a chael cymorth i grwpiau ar lefel Cymru.** | **Mae cyfrifoldeb a llwyth gwaith y Grwpiau Ecosystem wedi'u rhannu'n fwy helaeth ar draws aelodaeth y grwpiau** | **Wedi'i gyflawni** |
| 18 | Dylai Julia Korn (neu TL erbyn hyn) anfon at Diana Reynolds restr o holl staff y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sy'n perthyn i grwpiau ar lefel Cymru. | | Wedi'i gyflawni. Diweddarwyd aelodaeth grwpiau Cymru gan TL ym mis Ionawr 2011 |
| **19** | **Dylai Julia Korn (neu TL erbyn hyn) ddiweddaru'r gronfa ddata ynghylch aelodaeth.** | **Ceir gwybodaeth gyffredin am aelodaeth y grwpiau** | **Wedi'i gyflawni. Diweddarwyd aelodaeth grwpiau Cymru gan TL ym mis Ionawr 2011** |
| | Dylai Diana Reynolds weld a ellir rhyddhau Ivy Berkshire o'i swydd bresennol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn ymwneud â'r Grŵp Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir. | Cadwyd arbenigedd o fewn y Grŵp Ecosystem | Wedi'i gyflawni |
| **20** | **Dylai Bill Somerfield ddosbarthu'r rhestr o rywogaethau blaenoriaethol o ran Rhywogaethau Ymledol Estron yng Nghymru.** | **Gwybodaeth wedi'i rhannu a chyfleoedd o ran prosiectau cydweithredu wedi'u harchwilio** | **Wedi'i gyflawni** |
| 21 | Dylai Diana Reynolds ymchwilio i weld a | | Wedi'i gyflawni |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ellir defnyddio diwrnodau gwirfoddoli Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo â chamau gweithredu ynghylch Rhywogaethau Ymledol Estron??? - a oedd a wnelo â hyn, ynteu a oedd a wnelo â darparu gwasanaeth ysgrifenyddol??? | | |
| **22** | **Dylai Diana Reynolds roi gwybod i Julia Korn sut y bydd y Datganiad ynghylch y Dull Ecosystem yn symud yn ei flaen erbyn 4 Mehefin.** | **Ceir diffiniadau clir i Gymru o'r termau Ecosystem, y Dull Ecosystem, Gwasanaethau Ecosystemau a Bioamrywiaeth, a'r modd y maent yn perthyn i'w gilydd. Ceir dealltwriaeth well o sut i'w defnyddio** | **Wedi'i gyflawni**<br>**Gweler y ddogfen Diffiniadau**http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/eshlivingwalescons/?lang=cy |
| 23 | Dylai Diana Reynolds siarad â chydweithwyr i ddod o hyd i gynrychiolydd ar gyfer y Grŵp Arfordirol, sy'n ymwneud â datblygu'r Cynlluniau Rheoli Traethlin. | Ceir rhychwant gwell o randdeiliaid yn y Grŵp Ecosystem Arfordirol | Wedi'i gyflawni |
| **24** | **Dylai Diana Reynolds wirio llythyrau cylch gorchwyl Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Cyngor Cefn Gwlad i weld a oes cyfeiriad ynddynt at Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a gwaith cyflawni'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yng Nghymru.** | **Ceir mwy o arweiniad llywodraethol ar gyfer sefydliadau allweddol er mwyn cyfeirio adnoddau, gan gynnwys amser staff, at waith cefnogi'r dull gweithredu newydd** | **Wedi'i gyflawni** |
| 25 | Dylai Stephen Bladwell anfon y gwaith ar Integreiddio Rhywogaethau at Julia Korn, a bydd angen iddi hi ei ddosbarthu i'r grwpiau. | Rhannwyd y wybodaeth | Wedi'i gyflawni |
| **26** | **Dylai Peter Jones a Stephen Bladwell redeg cynllun peilot ar ffeniau, gan edrych ar sut y caiff anghenion o ran rhywogaethau eu hintegreiddio mewn gwaith rheoli cynefinoedd, a sut y gellid monitro cynnydd ac adrodd yn ei gylch. (Mae angen cytuno ar yr amserlen yn y fan hon).** | **Cafodd dull y gwaith integreiddio rhywogaethau ei dreialu a'i ddatblygu i weithio ar draws y Grwpiau Ecosystem** | **Wrthi'n cael ei gyflawni. Yn dilyn trafodaethau, bydd PJ a SB yn arwain cyfres o weithdai Integreiddio Rhywogaethau sy'n canolbwyntio ar y prif gynefinoedd** |
| 27 | Dylai Jan Sherry weld a fyddai Gavin Measures o Natural England yn fodlon dod i siarad â chyfarfod nesaf y Cadeiryddion am | Caiff defnydd effeithlon ei wneud o wybodaeth sy'n bodoli eisoes wrth ddatblygu gwaith integreiddio yng Nghymru | Gohiriwyd y cam gweithredu hwn oherwydd diswyddiadau ac aildrefnu yn Natural England |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | waith Natural England ar integreiddio rhywogaethau. | | |
| **28** | **Dylai Julia Korn gynnwys anerchiad gan Natural England ynghylch y mater uchod yn yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Cadeiryddion.** | | **Nid yw hynny’n angenrheidiol mwyach** |
| 29 | Dylai Len Wyatt anfon at Julia Korn y wybodaeth sydd ganddo am gynefinoedd sy’n gysylltiedig â’r rhwydwaith cefnffyrdd. | | Wedi’i gyflawni |
| **30** | **Dylai Len Wyatt gysylltu â Helen Wilkinson ynghylch cael mynediad i ddata Cam 2.** | | **Wedi’i gyflawni** |
| 31 | Dylai Len Wyatt a Caryn Le Roux drafod y materion polisi sy’n ymwneud â chefnffyrdd, a chwilio am atebion posibl. | | Wedi’i gyflawni |
| **32** | **Dylai Julia Korn gysylltu â’r grwpiau’n unigol os oes angen o hyd cael cyswllt ar gyfer adrodd yn ôl (System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth).** | | **Wrthi’n cael ei gyflawni** |
| 33 | Dylai Diana Reynolds ddarganfod pwy fydd y cyswllt ynghylch ymchwil yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, a dylai adrodd yn ôl ynghylch hynny. | | Wedi’i gyflawni |
| **34** | **Dylai Diana Reynolds anfon manylion cyswllt ar gyfer y cynllun Monitro Bywyd Gwyllt.** | | **Wedi’i gyflawni** |
| 35 | Dylai Julia Korn drefnu’r cyfarfod nesaf a dosbarthu’r manylion. | | Trefnwyd cyfarfod |
| **36** | **Dylai pawb fynychu’r cyfarfod nesaf ar 5 Hydref neu ddod o hyd i gynrychiolydd yn eu lle.** | | **Wedi’i gyflawni** |